



Gwasanaeth Cefnogi  
Swyddog Diogelu Data  
Data Protection Officer  
Support Service

IGDC • DHCW

# Atodlen Gwasanaethau Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data i Bractisiau Meddygol Cyffredinol (GMPs)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gwasanaethau Cymorth  
Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data (DPO) Iechyd  
a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ar gyfer GMPs.

Mae'r Atodlen hon ar gyfer:  
Llywodraethu Gwybodaeth IGDC (Perchennog Gwasanaeth)  
Gwasanaethau Gofal Sylfaenol IGDC  
Pwyllgorau Meddygol Lleol  
Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru  
Practisiau Meddygol Cyffredinol

Fersiwn: 3.0  
Statws: Terfynol

Perchennog: Darren Lloyd  
Awduron: Cora Suckley

Dyddiad: I ddod i rym o 1 Ebrill 2026  
Dyddiad Adolygu Nesaf: 1 flwyddyn ar ôl cymeradwyo  
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth IGDC  
Tŷ Glan-yr-Afon  
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen,  
Caerdydd  
CF11 9AD

# Tabl Cynnwys

1.0	Hanes y Ddogfen .....	3
1.1	Hanes Adolygu .....	3
1.2	Adolygwyr .....	3
1.3	Awdurdodiad .....	4
2.0	Rhestr Termau .....	5
3.0	Cefndir .....	6
3.1	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data .....	6
3.2	Swyddog Diogelu Data .....	7
3.3	Rhinweddau a Thasgau'r DPO .....	8
3.4	Llywodraethu Gwybodaeth .....	8
4.0	Gwasanaeth .....	9
4.1	Pwrpas yr Atodlen Gwasanaeth hon .....	9
4.2	Model Gwasanaeth .....	9
4.3	Swyddogaethau Allweddol .....	10
4.4	Swyddogaethau Safonol y Gwasanaeth .....	10
4.5	Nodweddion Gwasanaeth Dewisol .....	11
4.6	Trosolwg o'r Model Cymorth .....	12
5.0	Model Gweithredu .....	13
5.1	Tymor y Cytundeb .....	13
5.2	Tanysgrifio i'r Gwasanaeth .....	13
5.3	Argaeledd Gwasanaethau .....	13
5.4	Tâl Gwasanaeth .....	13
5.5	Diwygiadau i Ffioedd .....	14
5.6	Gofynion Contract GMP .....	14
5.7	Cyfyngiadau Gwasanaeth .....	14
5.8	Strategaeth Ymadael .....	14
5.9	Dibyniaethau'r Gwasanaeth (Dadansoddiad o'r Effaith Busnes) .....	14
5.10	Categori Gwasanaeth .....	15
6.0	Llywodraethu Gwasanaeth .....	15
6.1	Bwrdd Rheoli Gwasanaethau .....	15
6.2	Rheoli Newid .....	15
6.3	Rhwymedigaethau .....	16
6.4	Datganiadau o Fuddiant DPO .....	16
6.5	Cyfrinachedd a Defnyddio Gwybodaeth .....	16
6.6	Cwynion .....	16
6.7	Adolygu'r Atodlen Gwasanaeth .....	16
Atodiad A: (Swyddogaethau wedi'u mapio yn erbyn y model cymorth yn Adran 4.7) .....		17



Atodiad B: Trefniadau Gwasanaeth Cymorth IGDC .....	24
Atodiad C: .....	27
Atodiad D: .....	28



## 1.0 Hanes y Ddogfen

### 1.1 Hanes Adolygu

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb o'r Adolygiad
11/07/18	d0.1	Darren Lloyd	Drafft cyntaf
19/07/18	d0.2	Jeannette Short	Ail ddrafft
29/08/18	d0.3	Jeannette Short	Yn dilyn adborth gan randdeiliaid
12/09/18	d0.4	Darren Lloyd	Yn dilyn Adborth Gofal Sylfaenol gan GMPs a Byrddau Iechyd
19/09/18	d0.5	Jeannette Short	Diweddariadau Pellach
11/10/18	d0.6	Darren Lloyd	Diweddariadau i'r Adran Ariannol
29/10/18	d0.7	Jeannette Short/Darren Lloyd	Diweddariadau pellach yn dilyn sylwadau gan y Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
31/10/18	D1.0	Jeannette Short/Darren Lloyd	Diweddariadau terfynol i dablau ac atodiadau
14/04/20	D1.1	Cora Suckley	Adolygiad Blynyddol a diweddariadau
08/02/22	D1.2	Cora Suckley	Adolygu a diweddarau sefydliadau (NWIS i IGDC, Teitlau Swyddi a chyfeiriadau at GDPR y DU)
29/11/23	D1.4	Francesca Harries	Adolygiad Blynyddol a diweddariadau
06/12/23	F2.0	Francesca Harries	Cwblhau yn dilyn cymeradwyaeth gan Fwrdd Rheoli Gwasanaethau (SMB) y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data (DPOSS)
22/01/25	F2.1	Cora Suckley	Adolygiad Blynyddol a diweddariadau
07/11/25.	F2.2	Francesca Harries	Adolygiad Blynyddol a diweddariad - 2026 - drafft i'w gymeradwyo
27/02/2026	F3-0	Francesca Harries	Adolygiad Blynyddol a diweddariad - 2026 - terfynol

### 1.2 Adolygwyr

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen:


Dyddiad	Fersiwn	Enw	Swydd
31/10/18	D1.0	Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC) Cymru	Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
31/10/18	D1.0	Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol IGDC



18/06/20	D1.1	Darren Lloyd	Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
12/10/22	D1.3	Darren Lloyd	Cyfarwyddwr Cyswllt, Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, IGDC
14/10/22	D1.3	Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC) Cymru	Swyddog Gweithredol y Pwyllgor
06/12/23	D1.4	Aelodau SMB DPOSS	Bwrdd Rheoli DPOSS
17/11/25	F2.2	Aelodau SMB DPOSS	Bwrdd Rheoli DPOSS

### 1.3 Awdurdodiad

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

<b>Enw'r Cymeradwywr:</b>	Darren Lloyd
<b>Rôl:</b>	Cyfarwyddwr Cyswllt, Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion
<b>Llofnod:</b>	 <hr/> Darren Lloyd Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion

<b>Enw'r Cymeradwywr:</b>	DPOSS SMB
<b>Rôl:</b>	Gwasanaeth Cymorth DPO, Bwrdd Rheoli Gwasanaeth
<b>Llofnod:</b>	Aelodaeth o'r Bwrdd â Chworwm yn unol ag Adran 6.1.



## 2.0 Rhestr Termau

Term/Acronym	Ystyr
Rheolydd	Rheolydd Data – unigolyn, cwmni, neu gorff arall sy'n pennu diben a dull prosesu data personol (gellir pennu hyn ar ei ben ei hun, neu ar y cyd ag unigolyn/cwmni/corff arall)
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
DPA	Deddf Diogelu Data 2018 <a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted">http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted</a>
DPIA	Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data – asesiad sy'n ymwneud â phreifatrwydd. Ei amcan yw nodi a dadansoddi sut y gallai rhai gweithredoedd neu weithgareddau effeithio ar breifatrwydd data
DPO	Swyddog Diogelu Data – sy'n gyfrifol am oruchwylio'r strategaeth diogelu data a'i gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion GDPR y DU
GDPR y DU	Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data - atodlen Keeling ( <a href="http://uk-gdpr.org">uk-gdpr.org</a> )
GMPs	Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol
Pwyllgor Meddygon Teulu (GPC) Cymru	Pwyllgor Meddygon Teulu, Cymru
ICO	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth <a href="https://ico.org.uk/">https://ico.org.uk/</a>
IG	Llywodraethu Gwybodaeth – y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli defnyddio gwybodaeth bersonol
LMC	Pwyllgor Meddygol Lleol
NIIAS	Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol - yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar fynediad amhriodol posibl i gofnodion cleifion, a throsglwyddo'r hysbysiadau hyn i unigolyn dynodedig i'w dilyn i fyny.
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
PCS	Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, IGDC
PCSD	Desg Wasanaeth Gofal Sylfaenol, IGDC
Data/gwybodaeth bersonol	Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn, gan gynnwys ei ddelwedd neu lais, sy'n ei alluogi i gael ei adnabod yn unigryw o'r wybodaeth honno ar ei phen ei hun neu o'r wybodaeth honno a/neu wybodaeth arall sydd ar gael i'r sefydliad hwnnw.
Prosesydd	Prosesydd Data - unrhyw unigolyn; heblaw cyflogai, sy'n prosesu data ar ran rheolydd data. Mae ganddynt atebolrwydd cyfreithiol os



	ydont yn gyfrifol am dor diogelwch data. Mae GDPR y DU yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y Prosesydd
Gwasanaeth	Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data
SMB	Bwrdd Rheoli Gwasanaeth – yn gyfrifol am benderfyniadau strategol a gweithrediadau'r gwasanaeth
Data/gwybodaeth categori arbennig	Data sy'n cynnwys tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn naturiol. Cyfeiriwyd at y data hyn fel 'gwybodaeth sensitif' yn flaenorol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ond gyda'r rhai a amlygwyd mewn print trwm wedi'u hychwanegu.
PCC	Porth Clinigol Cymru <a href="#">Porth Clinigol Cymru - Iechyd a Gofal Digidol Cymru</a>
WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru <a href="#">Hafan WASPI - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru</a>

### 3.0 Cefndir

#### 3.1 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Mae Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) yn ffurfio cyfundrefn diogelu data'r DU.

Mae GDPR y DU yn berthnasol i 'reolwyr' a 'phroseswyr' gwybodaeth bersonol a chategoriâu arbennig (sensitif) sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy.

Mae GDPR y DU yn nodi saith egwyddor allweddol a ddylai fod wrth wraidd dull y sefydliad o brosesu gwybodaeth bersonol. Mae'r egwyddor atebolrwydd yn allweddol i ddangos cydymffurfiaeth â'r rheoliad.

Mae dwy elfen allweddol i'r egwyddor atebolrwydd; yn gyntaf, mae'n ei gwneud yn glir mai'r sefydliad sy'n gyfrifol am gydymffurfio â GDPR y DU. Mae hyn yn golygu bod angen i'r sefydliad fod yn rhagweithiol ac yn drefnus o ran ei ddull o ddiogelu data. Yn ail, rhaid i sefydliadau allu dangos eu bod yn cydymffurfio. Rhaid iddynt felly allu dangos tystiolaeth o'r camau y maent yn eu cymryd i gyflawni eu rhwymedigaethau ac amddiffyn hawliau pobl.

Mae nifer o fesurau y gall sefydliadau eu cymryd, ac y mae'n rhaid iddynt eu cymryd mewn rhai achosion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mabwysiadu a gweithredu polisiâu diogelu data – [Erthygl 24\(2\) a Datganiad 78](#);
- cymryd agwedd 'diogelu data trwy ddylunio' – [Erthygl 25 a Datganiad 78](#);
- rhoi contractau ysgrifenedig ar waith gyda sefydliadau sy'n prosesu data personol ar eu rhan – [Erthygl 28 a Datganiad 81](#);
- cadw cofnodion o'u gweithgareddau prosesu – [Erthyglau 7\(1\), 30 a 33\(5\) a Datganiadau 42 ac 82](#);
- gweithredu mesurau diogelwch priodol – [Erthyglau 5\(f\) a 32 a Datganiadau 39 ac 83](#);
- cofnodi a, lle bo angen, adrodd am achosion o dor diogelwch data personol – [Erthyglau 33-34 a](#)



### Datganiadau 85-88:

- cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer defnyddio data personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i fuddiannau unigolion - Erthyglau 35-36 a Datganiadau 84 a 89-95;
- **penodi swyddog diogelu data** - Erthyglau 37-39 a Datganiad 97; a;
- chadw at godau ymddygiad perthnasol a chymryd rhan mewn cynlluniau ardystio - Erthyglau 40-43 a Datganiadau 98-100.

## **3.2 Swyddog Diogelu Data**

Mae GDPR y DU yn cyflwyno dyletswydd ar GMPs, fel awdurdod cyhoeddus, i benodi Swyddog Diogelu Data (DPO), gweler Erthygl 39.

Diben y Swyddog Diogelu Data yw darparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar risg i'r sefydliad i gefnogi ei benderfyniadau ynghylch priodoldeb prosesu data personol a chategoriâu arbennig o fewn yr Egwyddorion a'r Hawliau Testun Data a nodir yn y Rheoliad.

Rôl y DPO yw 'hysbysu a chynghori' ac nid 'gwneud'. Mae'n gynghorydd dibynadwy y dylai'r Practis fynd ati i geisio cyngor ganddo. Gall y DPO helpu'r sefydliad i weithredu o fewn y gyfraith trwy gynghori a helpu i fonitro a dangos cydymffurfiaeth. Mae'r swyddog yn chwarae rhan allweddol yn strwythur llywodraethu diogelu data'r sefydliad ac yn helpu i wella a hwyluso 'atebolrwydd'. Rhaid i'r sefydliad benodi DPO y mae ei swydd-ddisgrifiad yn cydymffurfio â gofynion GDPR y DU ac yn benodol rhaid iddo sicrhau:

- bod y DPO yn adrodd yn uniongyrchol i lefel reoli uchaf y sefydliad – *nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu rheolwyr llinell ar y lefel hon, ond mynediad uniongyrchol a dirwystr at yr uwch dîm rheoli;*
- bod y DPO yn cael adnoddau digonol: adnoddau ariannol a dynol, ac yn cael ei gefnogi i gynnal ei arbenigedd;
- bod gan y DPO '*wybodaeth arbenigol o gyfraith ac arferion diogelu data*' profedig, y gallu i gyflawni'r tasgau a nodir yn GDPR y DU, a dealltwriaeth ddigonol o fusnes a phrosesu'r sefydliad;
- bod llywodraethu gwybodaeth a pholisïau cysylltiedig yn mynd i'r afael â'r canlynol:
  - Atebolrwydd sefydliadol;
  - trefniadau adrodd DPO;
  - cyfranogiad amserol y DPO ym mhob mater diogelu data;
  - sicrwydd cydymffurfio: preifatrwydd trwy ddylunio ac yn ddiodyn;
  - rhoi cyngor ynghylch ble mae angen asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data;
  - rôl y DPO mewn rheoli digwyddiadau;
- nid yw'r DPO yn cael unrhyw gyfarwyddyd ynghylch cyflawni ei dasgau, ac mae wedi'i ddiogelu rhag camau disgyblu, diswyddo neu gosbau eraill;
- pan fo'r DPO yn cyflawni rôl neu rolau eraill, nid yw ei gyfrifoldebau'n cael eu dylanwadu mewn unrhyw ffordd ac nid oes gwrthdaro buddiannau;
- cyhoeddir manylion cyswllt y DPO yng ngwybodaeth preifatrwydd y sefydliad ar gyfer testunau data ac maent yn cael eu pasio ymlaen i'r ICO.

Mae'n bwysig ystyried Canllawiau Gweithgor 29 sy'n datgan:



**'ni all** y DPO ddal swydd o fewn y sefydliad sy'n ei arwain i **bennu dibenion a dulliau prosesu** data personol. Oherwydd y strwythur Sefydliadol penodol ym mhob sefydliad, mae'n rhaid ystyried hyn fesul achos'

ac ymhellach:

*'Yn gyffredinol, gall swyddi sy'n gwrthdaro gynnwys swyddi uwch reolwyr (fel prif weithredwr, prif swyddog gweithredu, prif swyddog cyllid, prif swyddog meddygol, pennaeth yr adran farchnata, pennaeth Adnoddau Dynol neu bennaeth adran TG) ond hefyd swyddi eraill sy'n is i lawr yn y strwythur Sefydliadol os yw swyddi neu rolau o'r fath yn arwain at **bennu dibenion a dulliau prosesu**'.*

Gall sefydliadau lluosog sy'n 'awdurdodau cyhoeddus' rannu DPO gan ystyried strwythur a maint y sefydliad. Gall y DPO fod naill ai'n aelod o staff neu gall gyflawni'r tasgau ar sail contract gwasanaeth, ar yr amod nad oes gwrthdaro buddiannau. Mae tîm DPO gyda chyswllt enwebedig ar gyfer pob sefydliad yn ddull derbyniol.

### 3.3 Rhinweddau a Thasgau'r DPO

Bydd y DPO yn cael ei ddynodi ar sail rhinweddau proffesiynol ac, yn arbennig:

- arbenigedd mewn deddfwriaeth ac arferion diogelu data a dealltwriaeth fanwl o GDPR y DU;
- dealltwriaeth ddigonol o'r gweithrediadau prosesu a gyflawnwyd, yn ogystal ag anghenion systemau gwybodaeth a diogelu data'r sefydliad;
- gallu amlwg i gyflawni ei dasgau.

Prif dasgau'r DPO mewn perthynas â GDPR y DU yw:

- darparu cyngor i'r sefydliad a'i weithwyr ar rwymedigaethau cydymffurfio;
- rhoi cyngor ynghylch pryd y mae angen asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data a monitro eu perfformiad;
- monitro cydymffurfiaeth â GDPR y DU a pholisïau Sefydliadol, gan gynnwys ymwybyddiaeth staff a darpariaethau ar gyfer hyfforddiant;
- cydweithredu â'r Comisiynydd Gwybodaeth a bod yn bwynt cyswllt cyntaf iddo;
- bod yn bwynt cyswllt cyntaf o fewn y sefydliad(au) ar gyfer pob mater yn ymwneud â diogelu data;
- bod ar gael i destunau data gysylltu ag ef yn uniongyrchol; yn amodol ar gyfyngiadau a nodir yn Adran 5.7. Bydd manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data yn cael eu cyhoeddi yn hysbysiad preifatrwydd y sefydliad;
- ystyried risg gwybodaeth wrth gyflawni'r uchod.

### 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth (IG) yw'r ffordd y mae sefydliad yn trin ei holl wybodaeth, yn enwedig yr wybodaeth bersonol a sensitif sy'n ymwneud â chleifion a gweithwyr. Mae'n cynnwys cyfres o strwythurau, polisïau, gweithdrefnau, prosesau a rheolaethau amlddisgyblaethol sy'n cael eu rhoi ar waith i reoli gwybodaeth. Mae hefyd yn cefnogi gofynion rheoleiddio, cyfreithiol, risg, amgylcheddol a gweithredol y sefydliad yn awr ac yn y dyfodol.

Mae cleifion yn ymddiried eu gwybodaeth bersonol i weithwyr meddygol proffesiynol a sefydliadau gofal iechyd, gan greu gofynion penodol ar gyfer cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch.



## 4.0 Gwasanaeth

### 4.1 Pwrpas yr Atodlen Gwasanaeth hon

Mae'r atodlen hon yn diffinio'r mecanweithiau i gefnogi Practisiau Meddygol Cyffredinol (GMPs) ledled Cymru i gyflawni eu dyletswyddau fel Swyddog Diogelu Data a chyflawni eu cyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth a safonau cenedlaethol.

Mae'n sicrhau bod cyfrifoldeb clir o ran y ddarpariaeth gwasanaeth, sy'n diffinio'r prosesau gweithredol ac yn cefnogi defnydd wedi'i reoli. At ddiben y ddogfen hon, cyfeirir at y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data ar gyfer GMPs fel "y Gwasanaeth".

I grynhoi, mae'r atodlen hon yn darparu'r canlynol:

- Diffiniad o'r gwasanaeth;
- Disgrifiad o'r model cymorth;
- Nodi grwpiau a rolau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cymorth;
- Nodi gofynion cyflenwi;
- Trosolwg o brosesau cymorth;
- Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau Tîm y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO.

Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn ymwneud â gosod safon uchel ar gyfer trin gwybodaeth. Y bwriad felly yw rhoi'r offer i GMPs gyrraedd y safonau hynny ac yn y pen draw iddynt ddangos y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn gyson yn y ffordd y maent yn trin gwybodaeth bersonol a chorfforaethol.

### 4.2 Model Gwasanaeth

Nod y model Gwasanaeth yw sefydlu dull Cymru Gyfan ar gyfer GMPs a darparu lefel gyson o gyngor, hyfforddiant a chymorth i bractisiau cyffredinol sydd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth ledled Cymru mewn perthynas â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.

Ariennir y Gwasanaeth gan ffi ardoll (Gweler Adran 5.4) a delir gan bob practis sydd wedi tanysgrifio. Mae'r tanysgrifiad yn darparu mynediad at gymorth DPO llawn a gwasanaeth cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell cynhwysfawr.

Bydd practisiau nad ydynt yn tanysgrifio i'r gwasanaeth yn cael cymorth Llywodraethu Gwybodaeth sylfaenol presennol ar ffurf y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth fel y'i darperir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth cymorth hwn yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru a bydd yn parhau i gynnig gwasanaeth sylfaenol am ddim i GMPs. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gyfyngu i ddarparu pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth (IG) Cymru a Gwefan Llywodraethu Gwybodaeth gysylltiedig, cyngor Llywodraethu



Gwybodaeth yn ymwneud â Rhaglenni a Phrosiectau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a Monitro mynediad meddygon teulu i Borth Clinigol Cymru fel y nodir yn yr Atodlen Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol. Nid yw'n cynnwys cymorth gan swyddog diogelu data.

Amlinellir swyddogaethau pob gwasanaeth sydd ar gael yn Atodiad A.

### 4.3 Swyddogaethau Allweddol

Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys nifer o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fodel cymorth Cymru gyfan a fydd yn cwmpasu'r swyddogaethau canlynol:

- **Darparu** cyswllt penodol ar gyfer gofyn am gyngor cyson a di-oed ar ddeddfwriaeth diogelu data, safonau cenedlaethol a chanllawiau;
- **Sefydlu** rhaglen ar gyfer cydymffurfio â GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys dadansoddiad o'r bylchau, adolygu'r sail gyfreithiol a gweithgareddau prosesu gan sicrhau bod rheolaethau technegol a sefydliadol ar waith;
- **Mesur** cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn erbyn Safonau Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol a deddfwriaeth amrywiol trwy Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer GMPs;
- **Datblygu** a chynnal adnoddau cronfa wybodaeth ar-lein cynhwysfawr;
- **Codi** ymwybyddiaeth gyda'r lefel uchaf o reolaeth o fewn pob GMP;
- **Addysg** ar arferion gorau cyfredol, safonau, a deddfwriaeth sy'n datblygu trwy ddatblygu adnoddau ar-lein amrywiol;
- **Adolygu** contractau a chytundebau trydydd parti i adlewyrchu'r rhwymedigaethau diogelu data newydd a osodir ar broseswyr data;
- **Rhoi gwybod** am yr holl faterion Llywodraethu Gwybodaeth ac arferion da gan yr ICO, y BMA a chyirff llywodraethu eraill;
- **Integreiddio** gwasanaethau a Rhannu Gwybodaeth drwy'r model Clwstwr GMP;
- Rhoi cyngor ynghylch **echdynnu data** ar gyfer systemau gweithredol meddygon teulu a ddefnyddir ar gyfer defnyddio data sy'n ymwneud â gofal anuniongyrchol;
- **Cefnogi fforymau** ar gyfer rheoli newid, gwybodaeth a chanllawiau deddfwriaethol, diweddariadau a gwelliant.

### 4.4 Swyddogaethau Safonol y Gwasanaeth

Bydd y Gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o swyddogaethau. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:-

**Cyfathrebiadau Ymroddedig** – darparu gwybodaeth gyfoes a pherthnasol i'n tanysgrifwyr drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys tudalen we ddiogel i danysgrifwyr yn unig sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau, templedi, a chylchlythyr misol. Cyfeiriad e-bost gwasanaeth cymorth pwrpasol ar gyfer cyflwyno ymholiadau gydag amser ymateb di-ffael o 5 diwrnod gwaith.

**Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer GMPs** - yn galluogi GMPs i fesur eu cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn flynyddol, yn erbyn deddfwriaeth a safonau cenedlaethol. Mae cwblhau'r Pecyn Cymorth yn orfodol i bawb sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth a bydd yn helpu i ddarparu tystiolaeth o ofynion rheoliadol a safonau cenedlaethol.

Bydd y Gwasanaeth yn hwyluso archwilio a dadansoddi'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer practisiau sydd wedi tanysgrifio, er mwyn cefnogi cydymffurfiaid mewnol.



**Adnoddau Sylfaen Gwybodaeth** – mae adnoddau eisoes wedi'u datblygu i'w mabwysiadu gan bractisiau a bydd gwaith yn parhau i adolygu, datblygu a chynnal ystod bellach o ddogfennaeth addas ar ddeddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg, i gefnogi cydymffurfiaeth â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol a'r mesurau a nodir yn y Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth.

Bydd y rhain ar gael trwy wefan benodol y gwasanaeth a byddant yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, safonau cenedlaethol a chanllawiau arferion gorau, templedi polisiâu, gweithdrefnau, canllawiau, hysbysiadu preifatrwydd ac ati Cymru Gyfan. Bydd cylchlythyr misol sefydledig y Gwasanaeth DPO yn hyrwyddo diweddiariadau rheolaidd ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Llywodraethu Gwybodaeth.

**Hyfforddiant a Dysgu** – ar gael i holl staff GMP trwy adnoddau ar-lein ar y wefan bwrpasol, i'w cynorthwyo i ddeall eu cyfrifoldebau fel Rheolwyr Data. Bydd y Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar feysydd penodol o Lywodraethu Gwybodaeth a chydymffurfio â diogelwch data, trwy arsylwi cyrhaeddiad allbwn o'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ac o anghenion hyfforddi a nodwyd.

Bydd codi ymwybyddiaeth o'r maes gwaith hwn yn cael ei hybu gan y Gwasanaeth wrth ddatblygu a mabwysiadu adnoddau hyfforddi a fydd ar gael i holl staff y practis mewn fformatau amrywiol yn dibynnu ar ofynion hyfforddi ac argaeledd gwasanaeth.

**Hysbysu a Chynghori** – yn cael ei ddarparu i'r practisiau ar eu rhwymedigaethau diogelu data trwy gyfathrebu uniongyrchol a thrwy'r wefan. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, roi cyngor ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chwmpas, cyd-destun a dibenion gweithrediadau prosesu, a darparu canllawiau ar y broses DPIA ac adolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a gwblhawyd gan y practis, a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer testunau data. Gweler Adran 5.7 am gyfyngiadau, a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn enwedig ynghylch Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata Personol.

Bydd cyngor cyffredinol a cheisiadau ad-hoc am arweiniad a chymorth yn cael eu derbyn trwy system rheoli galwadau'r Gwasanaeth sef 'ActionPoint'.

**Rhannu Gwybodaeth** – bydd cyngor ar gael i GMPs a byddant yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o ddogfennau templed arferion da a ddatblygwyd yn unol â Fframwaith WASPI a chanllawiau ar Safonau Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd Electronig. Bydd y rhain yn cefnogi ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth wrth rannu fel endid unigol neu fel grŵp cydweithredol clwstwr. Er enghraifft, darparu arweiniad ar ddatblygu DPIAs;

Mae **Prosesau echdynnu data Audit+** – o systemau gweithredol meddygon teulu ar gyfer defnyddio data sy'n ymwneud â gofal anuniongyrchol, yn gofyn am gefnogaeth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO i ddeall a oes gan y derbynwyr data gymeradwyaeth a'r cytundebau priodol ar waith ac i sicrhau bod rheolaethau Llywodraethu Gwybodaeth priodol yn cael eu mabwysiadu mewn perthynas â defnydd ymlaen o'r data. Bydd y cyngor hwn yn ymestyn i echdynnu data ar gyfer casgliadau cenedlaethol. Bydd y DPO yn cynrychioli buddiannau meddygon teulu (yn ôl yr angen) ar ddefnyddiau cenedlaethol o ddata a chysyniadau echdynnu data ar gyfer adrodd ymlaen.

Mae **Adran 4.6** yn rhoi trosolwg o'r model cymorth, a atgyfnerthir yn fanylach yn Atodiad A.


## 4.5 Nodweddion Gwasanaeth Dewisol

Gall y gwasanaeth ddarparu gwaith llywodraethu gwybodaeth ychwanegol y tu allan i gwmpas yr atodlen gwasanaeth. Dylai sefydliadau sydd â diddordeb mewn derbyn gwasanaethau ychwanegol gysylltu â Rheolwr Gwasanaeth DPO i gytuno ar gwmpas y gwaith neu fentrau sydd eu hangen a chael



dyfynbris. Gellir cwblhau gwaith ar gyfradd dydd ymgynghorol neu gontract tymor hwy. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i danysgrifwyr a'r rhai nad ydynt yn tanysgrifio.

#### 4.6 Trosolwg o'r Model Cymorth



## 5.0 Model Gweithredu

### 5.1 Tymor y Cytundeb

Daeth y Gwasanaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2018. Bydd yn parhau mewn grym hyd nes y bydd IGDC, y llofnodwr neu gynrychiolydd arall o'r GMP yn arfer eu hawl i adael y Gwasanaeth fel y'u diffinnir yn Adran 5.8 o'r atodlen hon.

### 5.2 Tanysgrifio i'r Gwasanaeth

Er mwyn bwrw ymlaen i danysgrifio i'r gwasanaeth, mae'n ofynnol i GMPs gwblhau dau gytundeb:

- Cytundeb ar gyfer darparu Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO (Atodiad C)
- Awdurdodi Ardoll ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Gwell gan Swyddog Diogelu Data, IGDC

Mae'r ddau gytundeb yn nodi'r manylion sydd eu hangen ac i ble i anfon yr awdurdodiad wedi'i gwblhau.

Mae Atodiad C yn cadarnhau y bydd y GMP yn tanysgrifio yn seiliedig ar gynnwys yr atodlen hon.

Mae Atodiad D yn cadarnhau bod y GMP yn awdurdodi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) i gymryd taliad chwarterol sy'n gyfartal â'r gwerth rhagnodedig.

### 5.3 Argaeledd Gwasanaethau

Oriau cymorth y Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO yw **09:00 – 17:00 Dydd Llun – Dydd Iau, 09:00 – 16:30 Dydd Gwener (ac eithrio Gwyliau Banc)**.

Bydd ymholiadau ynghylch Adrodd ar Fynediad Diawdurdod at Ddata yn amodol ar ofynion Gorfodol yr ICO a GDPR y DU o 72 awr.

Y dull a ffafir o gysylltu â'r Gwasanaeth yw drwy'r system rheoli galwadau, 'ActionPoint' – [DPOService@wales.nhs.uk](mailto:DPOService@wales.nhs.uk).

Caiff galwadau eu hidlo a rhoddir blaenoriaeth addas iddynt ar gyfer ymateb. Yr amser safonol i ateb ymholiadau yw uchafswm o 5 diwrnod gwaith, er y byddwn yn ymdrechu i ymateb yn gynt.

Yn achos ymholiadau DPO brys, rhoddir ymateb ar y diwrnod gwaith nesaf fan hwyraf.

### 5.4 Tâl Gwasanaeth

Bydd y model costio yn seiliedig ar dâl 'fesul claf' o £0.114844635 yn unol â'r adroddiadau chwarterol mwyaf cyfredol. Disgwylir i daliadau gael eu casglu gan y GMP gan PCGC ar ddiwedd pob chwarter ac yna eu trosglwyddo'n uniongyrchol i IGDC. Bydd y gwasanaeth y codir tâl amdano yn cael ei adolygu ym mis Ebrill bob blwyddyn ac yn cynyddu yn unol â chynnydd ar sail codiadau chwyddiant cytundeb lefel gwasanaeth a bennwyd gan GIG Cymru.

NI fydd IGDC yn ceisio gwneud unrhyw arian dros ben nac elw o'r gwasanaeth hwn. Mae'r model costio uchod yn ceisio rhagweld amrywiadau anochel mewn costau staff a chostau referniw eraill. Os bydd sefyllfa'n codi pan fo darbodion maint yn awgrymu y gellir gwneud arbedion i'r gost ar gyfer y GMP,



bydd IGDC yn hysbysu'r holl randdeiliaid dan sylw ac yn newid y cyfrifiad o fewn fframwaith yr ardoll.

## 5.5 Diwygiadau i Ffioedd

Os oes angen swyddogaethau a nodweddion gwasanaeth ychwanegol ar unrhyw adeg fel rhan o'r pecyn cyffredinol, sy'n effeithio ar gost y Gwasanaeth, yna efallai y bydd y tanysgrifiad blynyddol yn cynyddu. Bydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth y Swyddog Diogelu Data yn cytuno ar welliannau i lefel y ffi.

Bydd IGDC yn rhoi gwybod i randdeiliaid am gynnydd o'r fath ym mis Ebrill bob blwyddyn.

Gall practisiau ofyn am wasanaethau ychwanegol fel yr amlinellir yn adran 4.6, a chodir tâl ychwanegol ar bractisiau unigol.

## 5.6 Gofynion Contract GMP

Bydd yn ofynnol i bob GMP ddarparu manylion cyswllt enwebedig o fewn y Practis. Bydd y Gwasanaeth yn cadw cofrestr o gysylltiadau fel bod y Gwasanaeth yn gallu cynnal dull cydlynol at ymholiadau a chyfathrebu. Mae'n ofynnol i bob GMP hysbysu'r Gwasanaeth o unrhyw newidiadau i'r cyswllt enwebedig.

## 5.7 Cyfyngiadau Gwasanaeth

Ni fwriedir i'r nodweddion gwasanaeth a ddisgrifir yn Atodiad A ddisodli neu ategu cyfrifoldebau busnes o ddydd i ddydd; sydd fel arfer yn rhan o rôl Rheolwr y Practis. Er enghraifft, ymateb yn uniongyrchol i geisiadau gan gleifion yr ystyrir eu bod yn dod o dan 'hawliau unigolion' o fewn GDPR y DU.

Ni fydd y gwasanaeth yn disodli unrhyw swyddogaeth sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda gwasanaethau eraill; oni bai y cytunir arno gan bob parti. Er enghraifft, drwy'r Byrddau Iechyd, PCGC neu Wasanaethau GIG cydnabyddedig eraill. Mae Atodiad A yn manylu ar yr eitemau sydd wedi'u heithrio o'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Nid yw'r Gwasanaeth yn bwriadu diffinio uchafswm terfyn amser mewn perthynas â chymorth a ddarperir i unrhyw GMP sydd wedi tanysgrifio iddo. Os yw'n ymddangos bod lefel y gefnogaeth a ddarperir i GMP penodol yn cael effaith andwyol ar lefel y gefnogaeth y gall y Gwasanaeth ei darparu i GMPs eraill, yna efallai y bydd angen i'r Gwasanaeth Cymorth osod cyfyngiadau ar ei ddarpariaeth gwasanaeth.

## 5.8 Strategaeth Ymadael

Bydd yn ofynnol i GMPs roi o leiaf un flwyddyn galendr o rybudd i IGDC os ydynt yn dymuno gadael y Gwasanaeth diffiniedig.

Gall IGDC ddiddymu'r Gwasanaeth os bydd colled ariannol yn fwy na 25% o gyfanswm nifer y GMPs o fewn un Bwrdd Iechyd neu ôl troed Pwyllgor Meddygol Lleol (LMC). Pe bai'r sefyllfa hon yn codi, bydd IGDC yn rhoi rhybudd o flwyddyn i'r GMPs bod y Gwasanaeth yn cau.

Bydd unrhyw wybodaeth a gedwir gan IGDC ar ran GMP ar ôl terfynu'r cytundeb, yn cael ei dychwelyd i'r practis neu'n cael ei dinistrio o fewn meini prawf cadw a dinistrio diffiniedig.

## 5.9 Dibyniaethau'r Gwasanaeth (Dadansoddiad o'r Effaith Busnes)

Mae Gwasanaeth Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth gan DPO yn dibynnu ar y gwasanaethau IGDC canlynol:

- Cyllid (trwy IGDC a PCGC)
- Tîm Llywodraethu Gwybodaeth



